Adroddiad i'r	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod	7 Mehefin 2022
Aelod Arweiniol / Swyddog	Y Cynghorydd Jason McLellan, Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Dwf Economaidd ac ymdrin ag Addifadedd / Emlyn Jones (Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad)
Awdur yr Adroddiad	Emlyn Jones (Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad) / Gareth Roberts (Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd, Adfywio a Datblygu Economaidd)
Teitl	Mabwysiadu Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ar gyfer gogledd Cymru a gofyn i'r Cyngor ei fabwysiadu. Mae'r fframwaith wedi'i gynnwys yn atodiad 1.

1.2 Mae'r fframwaith hwn yn hyrwyddo datblygiad economaidd cydweithredol ar draws y rhanbarth drwy gyfres gytunedig o flaenoriaethau a rennir i'w darparu gan bartneriaid rhanbarthol.

1.3 Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Cydweithio i ddarparu economi cryfach ar gyfer gogledd Cymru) yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a phartneriaid eraill yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu a chyrraedd nodau un fframwaith economaidd rhanbarthol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Fel y nodir yn yr adroddiad

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cyngor yn cefnogi ac yn mabwysiadu Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Sefydlodd Cynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru sylfeini ar gyfer gweithio'n rhanbarthol, yn cynnwys ymrwymiad i ddarparu llais rhanbarthol cryfach drwy fodel datblygu economaidd rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys sefydlu timau rhanbarthol a datblygu Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol.

4.2 Mae datblygu Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol yn rhan hanfodol o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fodel datblygu economaidd sy'n fwy rhanbarthol, gan gefnogi twf economaidd cynhwysol a chynaliadwy, manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i fynd i'r afael ag annhegwch rhanbarthol a lleol, a chyfrannu at Nodau Lles Cymru.

4.3 Wrth ddatblygu'r fframweithiau hyn mae'n rhaid ystyried yr adferiad dybryd sydd ei angen yn sgil y pandemig a dyheadau hirdymor y rhanbarthau.

4.4 Mae Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol yn gyfrwng i helpu hyrwyddo gwaith cynllunio a darparu ar y cyd rhanbarthol ymhlith partneriaid cyhoeddus, preifat a thrydydd sector. Bydd y ddarpariaeth yn canolbwyntio ar un weledigaeth a rennir ar gyfer pob rhanbarth ac yn cael ei chefnogi gan gyfres o flaenoriaethau ac egwyddorion rhanbarthol a rennir.

4.5 Bydd datblygiad y fframweithiau hyn yn allweddol i hysbysu a dylanwadau ar gyflawni blaenoriaethau ariannu Llywodraeth Cymru.

FFRAMWAITH ECONOMAIDD RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU

4.6 I greu drafft cyntaf y fframwaith hwn mae swyddogion Llywodraeth Cymru, Swyddfa Ranbarthol y Gogledd a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi cynnal cyfnod o ymgysylltu gydag amrywiaeth o fudd-ddeiliaid rhanbarthol allweddol i gyd-ddylunio'r dull datblygu economaidd hwn sy'n seiliedig ar leoedd. Yn ogystal â'r cydgynhyrchu drwy grwpiau amrywiol y Bwrdd Uchelgais Economaidd, cynhaliwyd dau

ddigwyddiad traws-sector i fudd-ddeiliaid. Darparodd yr un cyntaf ym mis Mai gefndir a chyfle i drafod cryfderau a chyfleoedd ar gyfer y rhanbarth. Roedd yr ail ddigwyddiad yn gyfres o wyth gweithdy a oedd yn gofyn am farn am flaenoriaethau'r rhanbarth. Bu swyddogion o Gyngor Sir Ddinbych yn cymryd rhan yn y gweithdai hyn.

4.7 Mae drafft cyntaf y Fframwaith Economaidd yn adeiladu ar waith presennol ac yn nodi blaenoriaethau a rennir ar gyfer y rhanbarth. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cyd-fynd â dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer economi lles sy'n ysgogi ffyniant, sy'n amgylcheddol gadarn ac yn helpu pawb i wireddu eu potensial.

4.8 Mae blaenoriaethau'r economi lles wedi'u cyflwyno yn y fframwaith dan dair thema: • Yr Economi Cymdeithasol a Chymunedol • Economi Profiad • Economi Carbon Isel ac Allyriadau Isel

4.9 Mae'r blaenoriaethau yn hyblyg gan ganiatáu i'r rhanbarth addasu ac ymateb i heriau a chyfleoedd yn ystod yr ugain mlynedd nesaf.

4.10 Cafodd y Fframwaith Economaidd drafft ar gyfer y gogledd ei gyflwyno i Gyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar 10 Rhagfyr 2021. Penderfynodd y Cyd-bwyllgor argymell y dylai chwe awdurdod lleol y gogledd gefnogi'r ddogfen.

4.11 Ar 22 Rhagfyr 2021 rhyddhaodd Vaughan Gething AS, Gweinidog dros yr Economi, ddatganiad ysgrifenedig, gan gyhoeddi'r 4 Fframwaith Economaidd Rhanbarthol drafft i Gymru. Yn y datganiad nododd y dylai'r dogfennau gael eu hystyried ymhellach gan awdurdodau lleol a phartneriaid eraill yn rhanbarth y gogledd ym mis Ionawr 2022. Meddai: "Rydym yn parhau'n ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth â phartneriaid a rhanddeiliaid i gyflawni yn erbyn y weledigaeth a'r blaenoriaethau a nodir ym mhob un o'r dogfennau hyn: mae'r cyfleoedd a'r heriau yn gofyn am ein hymdrechion cyfunol os ydym am gyflawni'n effeithiol yn erbyn ein huchelgeisiau cyfunol."

Y Camau Nesaf

4.12 Y camau nesaf fydd sefydlu, drwy'r Grŵp Adfer yr Economi Rhanbarthol (a phartneriaid allweddol eraill) rhaglen gyflenwi. Bydd hyn yn cynnwys ystyried sut ydym ni'n blaenoriaethu'r blaenoriaethau a phwy yw'r gorau i arwain y pecynnau cyflenwi hynny, gan gydnabod a pharchu trefniadau llywodraethu rhanbarthol presennol a phensaernïaeth gyflenwi. Mae rhywfaint o'r gwaith yma eisoes yn cael ei wneud ac

felly bydd arnom ni angen gwell dealltwriaeth o'r gwaith a'r pecynnau ariannu dan bob maes blaenoriaeth cyn creu meysydd gwaith newydd.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol yn ceisio cyrraedd nodau'r flaenoriaeth economaidd bresennol – bod yr amgylchedd yn ddeniadol ac yn cael ei ddiogelu, yn ogystal â chefnogi lles cymunedol a ffyniant economaidd.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes goblygiadau ariannol i'r Cyngor mewn perthynas â mabwysiadu'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Mae'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol yn cyd-fynd â'r '5 ffordd o weithio' Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r cynnwys wedi'i ddiffinio ar y cyd drwy ymgysylltu â grŵp amrywiol o fudd-ddeiliaid rhanbarthol. Bydd Asesiad o'r Effaith ar Les yn cael ei gynnal wrth i'r cynlluniau cyflenwi gael eu datblygu.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Trefnwyd digwyddiad ymgysylltu traws-sector ym mis Mai 2021 gyda'r sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector. Cafodd canlyniadau'r digwyddiad eu hadolygu gan bartneriaid a oedd yn datblygu'r fframwaith.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'r gwasanaeth wedi cadarnhau nad oes goblygiadau ariannol i'r Cyngor mewn perthynas â mabwysiadu'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes risgiau i'r Cyngor wrth fabwysiadu'r adroddiad hwn. Byddai peidio â mabwysiadu'r fframwaith yn oedi'r broses gymeradwyo ffurfiol ac fe all hynny roi'r gogledd dan anfantais o gymharu ag ardaloedd eraill yng Nghrymu.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol (2000)